Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

13 Mawrth 2023

Annwyl Mrs Cole

Diolch i chi am fy nghroesawu i Ysgol Gynradd Langstone ar 9 Chwefror 2023.

Yn ystod fy ymweliad, cefais gyfle i:

- Gynnal taith ddysgu o gwmpas yr ysgol
- Arsylwi disgyblion yn eu dosbarthiadau a'r tu allan yn ymgysylltu â'u dysgu
- Cynnal deialog broffesiynol â'r tîm arweinyddiaeth ynghylch datblygiadau yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru, addysgeg a dysgu a datblygiad proffesiynol
- Cynnal trafodaeth â chynrychiolwyr o grwpiau llais y disgybl
- Cynnal deialog broffesiynol ag arweinwyr y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ynglŷn â'u gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru a'r datblygiad proffesiynol a ddarperir
- Cynnal deialog broffesiynol â'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) a'i dirprwy ynglŷn â darpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn unol â diwygio ADY

Hoffwn ddiolch i chi am y trafodaethau agored a buddiol. Yn ystod ein trafodaethau, nodais y cryfderau canlynol:

- Mae arweinwyr a staff yn cynllunio ac yn cyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys mewn cyd-destun lleol, er enghraifft trwy greu cysylltiadau â Chaerllion Rhufeinig. Mae pedwar diben y cwricwlwm yn sbarduno eich darpariaeth.
- Mae staff yn gweithio mewn timau sy'n gysylltiedig â'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn sicrhau bod dilyniant ar draws yr ysgol ac y caiff arbenigedd ei rannu.
- Mae athrawon yn awyddus i ddatblygu profiadau dysgu go iawn ac yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.
- Trwy weithgareddau wedi'u gwahaniaethu a chefnogaeth, mae staff yn bodloni anghenion unigol disgyblion yn dda.
- Mae'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion eraill, gan gynnwys y rhai yn ei chlwstwr, yn ogystal â thrwy ei rôl fel ysgol arweiniol y rhwydwaith. Mae arweinwyr a staff yn cydweithio â'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd wrth ddatblygu'r MDaPhau, er enghraifft mewn gwyddoniaeth a thechnoleg.

- Trwy weithgareddau cyfeiriedig a phrofiadau ymarferol, mae staff yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu a gwella eu gwaith dros amser. O ganlyniad, mae llai o bwyslais ar gofnodi swmpau mawr o waith a mwy o ffocws ar ansawdd gwaith mewn llyfrau. O Flwyddyn 2 ymlaen, mae disgyblion yn cael amser i fyfyrio ar yr adborth mae athrawon yn ei roi.
- Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi pwysigrwydd dysgu proffesiynol i staff ac yn buddsoddi mewn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff.
- Mae’r ysgol yn rhoi pwys mawr ar gefnogi lles disgyblion. Mae staff â hyfforddiant addas i gefnogi’r gwaith pwysig hwn.
- Mae’r ysgol yn gwneud cynnydd cadarn wrth symud ymlaen â diwygio ADY. Mae’r CADY yn brofiadol iawn ac yn ymwybodol o’i chyfrifoldebau. Caiff y CADY ei chefnogi gan ddirprwy CADY i feithrin gallu yn yr ysgol. Maent yn cydweithio’n dda ag ysgolion eraill, gan gynnwys y rhai yn ei chlwstwr, yr awdurdod lleol ac asiantaethau iechyd.

Yn dilyn fy ymweliad, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu cameo [heb fod yn hwy nag un dudalen A4] yn amlinellu sut rydych wedi datblygu rôl dirprwy CADY i ddatblygu staff a meithrin gallu yn yr ysgol

Efallai yr hoffech fyfyrio ar y canlynol:

- I ba raddau mae disgyblion yn dylanwadu ar eu dysgu eu hunain trwy gynllunio’r cwricwlwm a materion pynciol
- Creu ymagwedd gyson tuag at adborth sy’n canolbwyntio ar athrawon yn nodi’r camau nesaf y dylai disgyblion eu cymryd i wella eu gwaith
- Sut mae camau cynnydd yn rhan o gontinwwm y cwricwlwm ac yn cefnogi dysgu dyfnach yn ei gyfanrwydd

Dymuniadau gorau a llawer o ddiolch i chi am eich cydweithrediad.

Yn gywir